

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Diolch yn fawr am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y coronafeirws.
Cofiwch wisgo mwgwd wrth hebrwng a chasglu plant.**

Cinio Nadolig yr ysgol - Os oes plant sy'n dod â phe cyn bwyd fel arfer i ginio yn dymuno archebu cinio Nadolig gan y gegin ar gyfer ddydd Gwener, Rhagfyr 11eg yna mae angen i chwi e bostio swyddfa@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk erbyn DYDD MAWRTH, Rhagfyr 1af. Mi fydd taliad o £2.50 yn cael ei gymryd o'ch cyfri Parent Pay.

Cyngerdd Nadolig yr ysgol – yn naturiol, oherwydd cyfyngiadau Covid 19 ni fydd modd i ni gynnal ein Cyngerdd Nadolig arferol yn y Neuadd Fawr eleni. Mae cyfyngiadau Covid 19 hefyd yn golygu nad oes modd i ni ganu tu mewn i adeilad yr ysgol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn anelu i ffilmio'r disgyblion yn eu grwpiau cyswllt yn gwneud gweithgareddau / eitemau Nadoligaidd ac yna creu cyflwyniad rhithwir i'w rannu gyda chi yn ddigidol.

OS NAD YDYCH YN DYMUNO I NI FFILMIO EICH PLENTYN YNA CYSYLLTWCH Â MR JAMES DRWY
gareth.james@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk **CYN DYDD MAWRTH RHAGFYR 1af.**

Gwisgoedd - mae angen i ni fod yn ofalus iawn wrth ddod ag unrhyw wisgoedd i'r ysgol, mae'n bosib fydd athrawon mewn rhai dosbarthiadau yn gofyn i'ch plant ddod â gwisg benodol i'r ysgol er mwyn eu gwisgo yn ystod y ffilmio. Mi fydd rhaid i unrhyw wisgoedd ddod i'r ysgol mewn bag (gydag enw'r plentyn ar y bag) ac yna mi fydd angen i'r bag gael ei gadw mewn lle penodol yn yr ysgol am gyfnod o amser cyn i'r plant eu gwisgo. Mi fyddwn yn anelu i ddechrau ffilmio yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn Rhagfyr 7fed – rhagor o fanylion i ddilyn gan yr athrawon dosbarth.

Gwyliau'r Nadolig – mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30 ar ddydd Gwener, Rhagfyr 18fed ac yn ail agor ar ddydd Mawrth, Ionawr 5ed.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

**R C Williams,
Pennaeth
27/11/2020**

prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Thank you for your co-operation as we continue to respond to the challenge of the coronavirus.
Please remember to wear a face covering/mask when dropping/collecting children.**

School Christmas Lunch - If children who usually bring a packed lunch wish to order a Christmas lunch from the kitchen for Friday, December 11th then please email swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk by TUESDAY, December 1st. A payment of £ 2.50 will be taken from your Parent Pay account.

School Christmas Concert - due to the Covid 19 restrictions we will not be able to hold our usual Christmas Concert in the Great Hall this year. The Covid 19 restrictions also mean that we cannot currently sing inside the school building. However, we aim to film the pupils in their contact groups doing Christmas activities / performances and then create a virtual presentation / film to share with you digitally.

IF YOU DO NOT WISH FOR YOUR CHILD TO BE FILMED THEN PLEASE CONTACT MR JAMES DIRECTLY ON gareth.james@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk BY TUESDAY, DECEMBER 1st

Costumes - we need to be very careful with bringing costumes from home. The teachers in some classes may ask your children to bring a specific costume to school to wear in class during filming. Any costumes will need to come to school in a bag (with the child's name on the bag) and then the bag will need to be stored for a period of time in a designated place in the school before the children wear them. We will aim to start filming during the week beginning December 7th - more details to follow from the class teachers.

Christmas Holidays - the school will close at 3.30 on Friday, December 18th and re-open on Tuesday, January 5th.

If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately.

**R C Williams,
Headteacher
27/11/2020**

prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk